SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**Cylchlythyr #29 SCHTh Gogledd Cymru – 22 Medi 2023**
**OPCC North Wales Newsletter #29 – 22 September 2023**

## Amlygu'r gwaith o drechu trosedd fel rhan o ymgyrch gweithredu'n erbyn troseddau cefn gwlad

Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Andy Dunbobbin yn cefnogi Wythnos Genedlaethol Troseddau Cefn Gwlad, a lansiwyd ddydd Llun, 18 Medi. Mae'r ymgyrch wedi'i threfnu gan Rwydwaith Cenedlaethol Troseddau Cefn Gwlad, sy'n gweithio er mwyn gweld gwell cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o broblemau ac effaith troseddau yng nghefn gwlad fel bod mwy'n gallu cael ei wneud er mwyn cadw pobl yn saffach. Mae'r ymgyrch wythnos o hyd hefyd yn ffordd o amlygu'r gwaith mae Comisiynwyr Heddlu a Throsedd y DU a'u Heddluoedd yn ei wneud er mwyn ymdrin â throseddau cefn gwlad.

Mae troseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt yn rhan hanfodol o'r ymateb i drechu trosedd yng Ngogledd Cymru a ffurfio rhan o'r flaenoriaeth gyffredinol o gyflawni cymdogaethau saffach yng Nghynllun Heddlu a Throsedd Andy Dunbobbin ar gyfer y rhanbarth. Mae troseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt yn cael eu hamlygu fel rhan o'r cynllun oherwydd nodweddion y troseddoldeb hwn a'r effaith sylweddol gall trosedd ei gael ar gymunedau cefn gwlad.

Fel rhan o ymroddiad Andy Dunbobbin i gymunedau cefn gwlad Gogledd Cymru a threchu trosedd, mae 2023 wedi gweld sawl menter er mwyn trechu trosedd a helpu cymunedau. **Darllenwch fwy yma.**



**Work to fight crime in North Wales highlighted as part of a National Rural Crime Action Week**

Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin is supporting National Rural Crime Week, which launched on Monday, 18th September. The campaign, organised by the National Rural Crime Network, works to see greater recognition and understanding of the problems and impact of crime in rural areas so more can be done to keep people safer. The week-long campaign is also a way of highlighting the work that the UK's Police and Crime Commissioners and their Forces do to tackle rural crime.

Rural and wildlife offences are a vital part of the response to fighting crime in North Wales and form part of the overarching priority of delivering safer neighbourhoods in Andy Dunbobbin's Police and Crime Plan for the region. Rural and wildlife crime is highlighted as part of the plan due to the particular features of this type of criminality and the significant impact that crime can have on rural communities.

As part of Andy Dunbobbin's commitment to North Wales rural communities and fighting crime, 2023 has seen a number of initiatives to fight crime and support communities. **Read more here.**


---

**Troseddau casineb i fod yn ffocws digwyddiad yng Ngogledd Cymru**

Deall troseddau casineb a bregusrwydd yng Ngogledd Cymru fydd canolbwynt digwyddiad arbennig yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb y DU, sy'n rhedeg o 14-21 Hydref.  Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal gan Andy Dunbobbin ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, Canolfan Cefnogaeth Casineb Cymru yng nghanolfan Cymorth Dioddefwyr a Thimau Cydlynu Cymunedol Gogledd Cymru.

Mae'r digwyddiad, sy'n digwydd ar ddydd Llun 16 Hydref o 3.30pm - 5.30pm yn debyg i ddigwyddiad ar-lein a gafodd ei gynnal am y tro cyntaf y llynedd. Y tro hwn, bydd y trefnwyr yn archwilio bregusrwydd a throseddau casineb o fewn cymunedau Gogledd Cymru, ac yn edrych ar sut i leihau dioddef a sut mae pobl sy'n profi troseddau casineb yn gallu derbyn cefnogaeth.

Mewn digwyddiad prysur, dwy awr o hyd bydd siaradwyr yn rhannu profiadau yn gweithio yng Ngogledd Cymru - yn enwedig gyda phobl anabl - a bydd swyddogion yn clywed hefyd oddi wrth swyddogion sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion a'r rhai sy'n rhoi gwasanaeth yn cefnogi dioddefwyr ynysig a bregus. **Archebwch le yma.** *(cliciwch 'Cymraeg' yn y faner uchaf i weld cyfieithiad Cymraeg)*



## Hate crime to be the focus of North Wales event

'Understanding hate crime and vulnerability in North Wales' will be the focus of a special event taking place during UK Hate Crime Awareness Week, which runs from 14-21 October. The event is being hosted Andy Dunbobbin alongside North Wales Police, the Wales Hate Support Centre at Victim Support and the North Wales Community Cohesion Teams.

The event, taking place on Monday 16 October 3.30pm – 5.30pm, builds on a similar online event which took place for the first time last year. This time round, the organisers will explore vulnerability and hate crime within the communities of North Wales, look at how to reduce victimisation, and how people who experience hate crime can be supported.

In a packed and thought-provoking two-hour agenda, speakers will share insights from services working in North Wales – particularly with disabled people – and attendees will hear also from police officers working with young people in schools and those providing services to support isolated and vulnerable victims. **Book a place here.**

---

## SCHTh yn Ffeiriau'r Glas Gogledd Cymru

Cawsom amser gwych yn nigwyddiadau Ffair y Glas Grŵp Llandrillo Menai dros yr wythnos ddiwethaf, yn cynrychioli SCHTh yng Ngholeg Menai, Bangor, a Choleg Llandrillo yn Llandrillo-yn-Rhos.

Roedd yn wych cyfarfod â'r myfyrwyr newydd a rhoi cipolwg ar ein gwaith pwysig er mwyn cadw ein rhanbarth yn ddiogel. Daeth dros 200 o ymwelwyr at y stondin a buom yn mwynhau siarad am ein swyddfa a chlywed ganddynt am eu mentrau – dymunwn y gorau iddynt yn eu hastudiaethau.



## OPCC at North Wales Freshers' Fayres

We had a great time at the Grŵp Llandrillo Menai Fresher's Fayre events over the past week, representing the OPCC at Coleg Menai, Bangor, and Coleg Llandrillo in Rhos-on-Sea.

It was great meeting the new students and sharing insights about our important work in keeping our region safe. We had over 200 visitors to stall and we enjoyed talking about our office and hearing from them about their ventures - we wish them the very best in their studies

---

**Erthyglau allweddol o'r cyfryngau | Key articles from across the media**

- County Times: Actor Michael Sheen and former Liverpool goalie back Powys match *(Erthygl Saesneg)*
- North Wales Pioneer: Meeting held at Llandudno hotel amid instances of antisocial behaviour *(Erthygl Saesneg)*

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES**

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy